**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 17 Mai 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sykes (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | S J Gallagher |
| D W Helliwell | B Hopkins | L James |
| S M Jones | L R Jones | M A Langstone |
| L J Tyler-Lloyd | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts | |

**Swyddog(ion)**
Helen Morgan Rees, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaethau
Michelle Roberts, Craffu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, L S Gibbard a/ac H M Morris
Aelodau Cyfetholedig(wyr): J Meredith

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Y Cyng. Susan Jones, cyswllt personol ag eitem 5/6

2 **Ethol Cynullydd Panel**

Cytunwyd y byddai'r Cyng. Mo Sykes yn parhau fel cynullydd ac y byddai'r Cyng. Lyndon Jones yn gweithredu fel is-gynullydd ar gyfer y panel.

3 **Nodiadau a Llythyrau Cynullyddion**

Derbyniwyd llythyr y cynullydd, ymateb y Cabinet a'r nodiadau gan y panel.

4 **Materion presennol ym maes addysg - cyflwyniad trosolwg**

Cyfarfu'r panel â Helen Morgan Rees, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaethau, i drafod y materion cyfredol sy'n effeithio ar addysg.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Y weledigaeth *Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn gallu datblygu ei botensial*
- Y cysylltiadau â'r cynllun corfforaethol a'r blaenoriaethau allweddol
- Blaenoriaethau'r Adran Addysg ar gyfer 2017/2018
- Y materion hynny sydd ar y blaengynllun gan gyfeirio'n benodol at y materion allweddol canlynol:
  - Safonau newydd ar gyfer athrawon ac arweinwyr a ddaw i rym ym mis Medi 2018 a'r goblygiadau ar gyfer ysgolion
  - Diwygio Anghenion Dysgu Amgen a goblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd
  - Cwricwlwm newydd drafft
  - Datblygu strategaeth lles ac ymddygiad
  - Datblygiadau Addysg Mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol (EOTAS)
- Bu'r panel hefyd yn trafod:
  - Addysgu gartref a chofrestru plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref
  - Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
  - Y gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY). Clywodd y panel y bydd gostyngiad yn y grant gan Lywodraeth Cymru'n cael effaith fawr ar y gwasanaeth hwn. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Addysg yn ymgynghori ar y goblygiadau a'r ffordd ymlaen. Gofynnodd y panel am fwy o wybodaeth am linell amser y penderfyniad hwn a hoffai ei gynnwys yn ei rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, fel eitem craffu cyn penderfynu o bosib?
  - Hyfforddiant athrawon/datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol
  - Rhaglen sefydlu penaethiaid a datblygu uwch-arweinwyr a darpar arweinwyr
  - Diwygio Llywodraeth Leol a goblygiadau ar gyfer sut rydym yn gwneud pethau
  - Deddf Diogelu Data ac ysgolion
  - Clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwaith cartref. Hoffai'r panel drefnu i gynnwys hyn yn ei raglen waith.
- Y targedau ariannol a chynilion ar gyfer addysg dros y 3 blynedd nesaf.
- Abertawe 2025, yr hyn rydym am ei weld ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc, y disgwyliadau, y nodau, yr amcanion, yr hawliau a'r blaenoriaethau.
- Yr hyn mae ei angen ar blant a phobl ifanc i gael y canlyniadau gorau:
  - Y cwricwlwm cywir
  - Y gefnogaeth gywir i ddysgwyr
  - Yr arweinwyr cywir
  - Y gweithlu cywir
  - Yr amgylchedd cywir

5 **Adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf a chynllun ar gyfer y 12 mis i ddod ym maes craffu ar addysg**

Ystyriodd y panel y cwestiynau canlynol am eu craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

1. Beth aeth yn dda?
2. Beth nad oedd wedi gweithio cystal?
3. A yw rhaglen waith y panel wedi canolbwyntio ar y pethau cywir?
4. Beth rydym wedi'i ddysgu a fydd yn ein helpu gyda chraffu ar addysg yn y dyfodol?

O hyn, meddai aelodau'r panel:

- Da cael siarad ag ysgolion gwahanol
- Hoffem fynd allan i ysgolion yn fwy eleni
- Da gweld ysgolion coch/ambr ond byddai hefyd yn ddefnyddiol siarad ag ysgolion gwyrdd a sut maent yn cynnal y lefel honno
- Hoffem gynnwys ERW, sut rydym yn ymestyn y disgyblion mwyaf abl, clybiau ar ôl ysgol a'r Gymraeg yn y rhaglen waith

Yna bu'r panel yn trafod ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan gytuno i gynnwys y materion canlynol:

- Cwestiynau gan y cyhoedd ar ddetholiad o baneli
- Gwyddoniaeth mewn ysgolion yn Abertawe
- Sesiynau gydag ysgolion i gynnwys
  - Ymweliad safle ag ysgol gynradd werdd sy'n gwneud yn dda yn y Cyfnod Sylfaen
  - 2 ysgol ambr
  - Ymweld ag Ysgol Gynradd Treforys i weld gwelliant yn cael ei ymgorffori yn dilyn sesiwn gyda hi ar 17 Chwefror
- Cynnydd gyda gwelliannau i addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol
- Strategaeth lles ac ymddygiad newydd
- Canlyniadau addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- Gwario'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi disgyblion diamddiffyn
- Cynllun busnes ERW a chynnydd gyda blaenoriaethau rhanbarthol a lleol
- Y diweddaraf am berfformiad blynyddol y Gwasanaeth Gwella Ysgolion
- Data Perfformiad Addysg Blynyddol (gan gynnwys data wedi'i ddilysu) a'r categoreiddio ysgolion diweddaraf
- Argymhellion yr ymchwiliad craffu pa mor barod yw plant i ddechrau'r ysgol sydd heb eu rhoi ar waith - y diweddaraf
- Craffu ar y gyllideb flynyddol gan ei bod yn ymwneud ag addysg
- Safonau newydd ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion - goblygiadau a chynnydd
- Cwricwlwm newydd drafft (panel wedi cytuno i gael sesiwn ddatblygu ar y mater)
- Goblygiadau a pharatoi ar gyfer Diwygio ADY
- Craffu cyn penderfynu ar ganlyniadau adolygiad y Comisiwn ADY
- Newidiadau i'r gwasanaeth SIY (craffu cyn penderfynu posib)
- Argaeledd clybiau ar ôl ysgol/gwaith cartref

Bydd y swyddog craffu'n llunio rhaglen waith gyda'r materion hyn ar gyfer cyfarfod nesaf y panel ar 7 Mehefin.

6 **Eitem Er Gwybodaeth**

Derbyniodd y panel wybodaeth am Arolygiadau Ysgolion Estyn a gyhoeddwyd ers ei gyfarfod diwethaf ym mis Mawrth.